# Bro Morgannwg

# Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr

# Haf 2025

This document is available in Welsh / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

**Haf 2025**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Vale of Glamorgan**

# Empowering Governors Programme

## Modiwl 1- Sefydlu llywodraethwyr newydd: rolau a chyfrifoldebau'r llywodraethwyr - 'adnabod fy ysgol'


Mae'r modiwl gorfodol diwygiedig hwn wedi'i anelu at lywodraethwyr newydd a rhaid ei gwblhau o fewn blwyddyn gyntaf y penodiad. Bydd yn helpu llywodraethwyr newydd i ennill y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ddechrau cyflawni eu rol yn effeithiol i gefnogi eu hysgol i godi safonau. Bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar:

- sut mae gweledigaeth yr ysgol yn siapio gwerthoedd ar draws cymuned yr ysgol ac yn sbarduno diwylliant o ddisgwyliadau uchel
- rolau a chyfrifoldebau allweddol llywodraethwyr
- cyfansoddiad cyrff llywodraethu a sut maent yn gweithio
- herio a chefnogi effeithiol

## **Modiwl 2 -Rôl data wrth gefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion** – 'yr hyn y mae angen i lywodraethwyr ei wybod a pham'

Nod y modiwl gorfodol wedi'i ddiweddaru hwn ar gyfer llywodraethwyr newydd yw datblygu dealltwriaeth o gynnydd ysgolion a data perfformiad. Mae'r sesiwn yn archwilio:

- y mathau o ddata a ddefnyddir gan ysgolion a'r rôl y mae data'n ei chwarae wrth wella ysgolion
- sut y gall llywodraethwyr ddefnyddio data i herio a chefnogi'r ysgol i wella
- sut mae Llywodraethwyr yn atebol am y cynnydd a wneir gan bob grŵp o ddysgwyr a sut mae'r data hwn yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio gan eu hysgolion
- y mathau o gwestiynau y gall llywodraethwyr eu gofyn am ddata eu hysgolion eu hunain.



**Haf 2025**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Vale of Glamorgan**

# Empowering Governors Programme

## Modiwl 3- Diogelu: 'deall a hyrwyddo diwylliant o wyliadwriaeth'

Mae'r modiwl dewisol hwn yn sail i hyfforddiant pwysig gan yr ALl ac yn helpu llywodraethwyr i gydnabod eu rôl wrth hyrwyddo diwylliant o wyliadwriaeth yn eu hysgolion. Bydd y sesiwn yn helpu llywodraethwyr i ddeall:

- eu rôl wrth fonitro a hyrwyddo diogelu ar draws cymuned yr ysgol
- sut i gydymffurfio: polisïau a chadw cofnodion
- sut i greu diwylliant diogel ac iach sy'n cynnwys llais disgyblion a staff
- y sbectrwm o ddiogelu a diogelwch ar-lein.

## Modiwl 4- Galluogi tegwch a rhagoriaeth: 'dyheadau uchel i bawb'

Nod y sesiwn hon yw datblygu eich dealltwriaeth o pam mae tegwch, rhagoriaeth a lles yn hanfodol i sicrhau dyheadau uchel ar gyfer pob dysgwr. Byddwch yn dechrau:

- adnabod rhwystrau i ddysgu a chyfleoedd i godi dyheadau pob dysgwr
- cydnabod yr amrywiaeth o grwpiau agored i niwed a'r angen i fonitro eu cynnydd yn drylwyr
- deall goblygiadau ac effaith Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn ysgolion a sut mae hyn yn cyfrannu at system decach i bawb.

# Sesiynau Dysgu Proffesiynol Rôl Benodol

## Rhaglen Hyfforddiant Ragarweiniol i Lywodraethwyr

Mae Consortiwm Canolbarth y De yn ceisio ymgorffori diwylliant o hyfforddi a mentora ar draws ein holl ysgolion. Mae hyn yn cynnwys ein cyrff llywodraethu.

Bydd y sesiwn yn eich cyflwyno i ystod o sgiliau a strategaethau hyfforddi a fydd yn cyfoethogi ac yn ysbrydoli'r sgyrsiau a fyddwch chi'n eu cael gyda'ch uwch dim arwain ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol.



## Sefydlu Cadeirydd Newydd

Mae hwn yn gwrs gorfodol ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr newydd. Bydd yn sicrhau bod y cadeirydd yn meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ddechrau cyflawni eu rol yn effeithiol I gefnogi eu hysgol i godi safonau a chyflawni ei swyddogaethau statudol.

Mae'r rhaglen yn darparu cyflwyniad ar:
- rol a sgiliau'r cadeirydd
- perthnasoedd allweddol
- sut i fod yn llywodraethwr effeithiol.

Mae'r sesiwn hon hefyd yn gyfle i chi godi unrhyw gwestiynau sy'n codi o'r hyfforddiant, eich rol fel cadeirydd ac i rannu eich profiadau hyd yn hyn.

**Haf 2025**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Vale of Glamorgan**

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Hyfforddiant Bro Morgannwg

## Gofalwyr Ifanc Di-dâl:  Codi ymwybyddiaeth, nodi a chefnogi

**Gofalwyr Ifanc Di-dâl:  Codi ymwybyddiaeth, nodi a chefnogi.**

Mae gofalwyr ifanc yn blant a phobl ifanc dan 18 oed sy'n darparu gofal a chefnogaeth i aelod o'r teulu sy'n anabl, yn sâl yn gorfforol neu'n feddyliol, neu sy'n cael ei effeithio gan gamddefnyddio sylweddau.

Mae tua 1 o bob 8 person ifanc yn ofalwr ifanc di-dâl,   Amdanom Ni - Gofalu fel Gofalwr Ifanc | Ymddiriedolaeth Gofalwyr.

Nod y sesiwn hyfforddi ar-lein hon yw codi ymwybyddiaeth ymhlith llywodraethwyr am ofalwyr ifanc di-dâl a hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael ym Mro Morgannwg, yn enwedig:

- Cynllun Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc a Phrosiect Gofalwyr Ifanc y Fro – dan oruchwyliaeth YMCA
- Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc mewn Ysgol - dan oruchwyliaeth Tuvida
- Siarter Gofalwyr Ifanc a'r hawl i ofyn am asesiad gofalwr statudol a llwybr atgyfeirio Siarter Gofalwyr Di-dâl – BPRh Caerdydd a’r Fro – a ddarperir gan Gyngor y Fro

## Llywodraethwr Diogelu Dynodedig (LlDDau)

Mae'r cwrs hwn ar gyfer Llywodraethwyr Diogelu Dynodedig (LlDDau) yn unig ac mae'n cwmpasu disgwyliad y rôl, yn darparu dealltwriaeth o'r Pecyn Cymorth Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (CDDd) ac yn nodi sut i ddangos tystiolaeth o atebolrwydd i Estyn o ran ansawdd ac effeithiolrwydd pa mor ddiogel yw'r ysgol drwy ddiweddaru a gwella polisi a gweithdrefnau diogelu'r ysgol.

## Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) mewn Ysgolion

Nod yr hyfforddiant hwn yw grymuso llywodraethwyr i gefnogi ysgolion i fodloni'r gofynion deddfwriaethol ynghylch CGM. Bydd yr hyfforddiant hwn yn

- Datblygu eu gwybodaeth am y pwnc crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn y Cwricwlwm i Gymru
- Datblygu ymwybyddiaeth o sut mae CGM yn wahanol i'r weithred ddyddiol o gydaddoli a sut mae angen iddo fod yn rhywbeth ar wahân
- Datblygu ymwybyddiaeth a hyder i gefnogi ysgolion wrth ymdrin â cheisiadau i dynnu plant yn ôl
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl CYSAG/CYS a sut y gallant gefnogi llywodraethwyr ac ysgolion/lleoliadau
- Archwilio cwestiynau perthnasol i lywodraethwyr i'w helpu yn eu rôl ‘cyfaill beirniadol’ ynghylch CGM

## Gwaharddiadau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at lywodraethwyr sy'n aelodau o'r pwyllgor disgyblu disgyblion neu lywodraethwyr y mae’n debygol y bydd gofyn iddynt gefnogi yn ystod achosion sy’n ymwneud â gwahardd.

Diweddarwyd canllawiau “Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion” Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2024, gyda mwy o bwyslais ar gefnogi disgyblion ag ADY a ffocws o'r newydd ar osgoi gwahardd plant, y ddeddf cydraddoldeb, a llais y plentyn neu berson ifanc.

Mae yna gyfrifoldebau penodol sy'n disgyn i’r pwyllgor disgyblu disgyblion pan fydd rhieni a/neu blant neu bobl ifanc yn cyflwyno apeliadau neu sylwadau ar ôl gwaharddiad, ac mae'r hyfforddiant hwn yn berthnasol i lywodraethwyr ysgolion o bob math: cynradd, uwchradd ac arbenigol. Mae'r canllawiau wedi’u diweddaru’n enwedig o berthnasol, gan fod pryderon am waharddiad (hyd yn oed gwaharddiadau cyfnod byr, penodol o ddiwrnod neu ddau) yn cael eu hystyried gan y pwyllgor disgyblu disgyblion ac ni ddylid ymchwilio iddynt fel cwynion.

Yn y Deyrnas Unedig, mae bron i hanner y boblogaeth sydd yn y carchar wedi cael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol o'i gymharu â 0.01% o'r boblogaeth nad ydynt yn y carchar. Oherwydd hynny, dylai pob penderfyniad ynghylch gwaharddiadau, yn enwedig gwaharddiadau parhaol, gael ei ystyried yn drylwyr gan Lywodraethwyr a'r pwyllgor disgyblu disgyblion.

## Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae hwn yn drosolwg addysgol o Blant sy'n Derbyn Gofal. Nod y sesiwn yw galluogi llywodraethwyr i fod yn Rhieni Corfforaethol gweithredol a chlywed llais y plentyn. Mae'r sesiwn yn amlinellu strategaethau i hyrwyddo cyflawniad a lles Plant sy'n Derbyn Gofal.




## Llais y Disgybl a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Sylwer, cwrs wyneb yn wyneb yw hwn,

ac fe fydd yn cael ei gynnal yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri.

Nod y cwrs hwn yw rhoi cyfle rhyngweithiol i helpu llywodraethwyr i gael y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfranogiad disgyblion effeithiol yn gysylltiedig â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Bydd yr hyfforddiant hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth iddynt am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sef confensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau plant. Bydd yr hyfforddiant yn ymdrin â deddfwriaeth berthnasol, sut i weithredu dull hawliau plant ar gyfer llais y disgybl mewn ysgolion, ac yn archwilio'r dyletswyddau sydd gan ysgolion o ran galluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau. Mae'r hyfforddiant hwn yn gyfle gwych i gefnogi llywodraethwyr sy'n cymryd rhan mewn gwaith llais y disgybl a gwaith cwricwlwm yn eu hysgolion.

## Llywodraethu Gwybodaeth

Mae'r cwrs wedi'i anelu at bob Llywodraethwr oherwydd bod Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithio ar sawl agwedd ar waith o fewn ysgol. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y Ddeddf Diogelu Data a'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf, bydd hyn yn cynnwys ystyried trefniadau llywodraethu, trin a rhannu data personol, materion yn ymwneud â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth, ystyriaethau ynghylch tor diogelwch data, a fydd yn cynnwys yn fyr, ystyried materion o fath seiberddiogelwch a cheisiadau eraill am wybodaeth fel y rheini o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Nod y cwrs yw darparu trosolwg yn y meysydd hyn i sicrhau bod Llywodraethwyr yn ymwybodol o rwymedigaethau yn y meysydd hyn. Mae'r maes hwn yn cael ei reoleiddio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae ganddynt bwerau eang. Maent yn disgwyl i atebolrwydd fod yn dryloyw ac yn amlwg ar lefelau uwch pob sefydliad. Maent hefyd yn disgwyl i hyfforddiant Diogelu Data gael ei gynnal o leiaf bob dwy flynedd. Mae Cyngor Bro Morgannwg o'r farn y dylai hyfforddiant gael ei gynnal yn flynyddol. Ar hyn o bryd, mae'r ffordd y caiff gwybodaeth bersonol ei rhannu, ei defnyddio a'i storio yn newid ac mae llawer o newidiadau yn digwydd yn y maes hon yn rheolaidd.

Cofrestrwch ar gyfer cwrs neu gyrsiau trwy glicio ar ddolen y ffurflen archebu, a fydd yn mynd â chi'n uniongyrchol i'n ffurflen archebu.

## Hyfforddiant Llywodraethwyr Tymor yr Haf 2025

## Tîm Cefnogi Llywodraethwyr Bro Morgannwg


**John Sparks – Pennaeth Cymorth Llywodraethwyr**

jsparks@valeofglamorgan.gov.uk

01446 709106

**Uwch Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr**

fwright@valeofglamorgan.gov.uk

01446 709125


Llywodrethwyr (valeofglamorgan.gov.uk)

**Haf 2025**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Vale of Glamorgan**

# Calendar of Training Dates

| Date | Time | Session |
|---|---|---|
| Dydd Mercher 7 Mai | 10am-12pm | Sefydlu llywodraethwyr newydd: rolau a chyfrifoldebau'r llywodraethwyr - 'adnabod fy ysgol' |
| Dydd Mawrth 13 Mai | 1.00-3.00pm | Sefydlu llywodraethwyr newydd: rolau a chyfrifoldebau'rllywodraethwyr - 'adnabod fy ysgol' (Cy) |
| Dydd Iau 15 Mai | 10am-12pm | Diogelu: 'deall a hyrwyddo diwylliant o wyliadwriaeth' |
| Dydd Iau 15 Mai | 1.00-3.00pm | Rôl data wrth gefnogi hunanwerthuso a gwella mewn Ysgolion (Cy) |
| Dydd Mawrth 20 Mai | 5.30-7.30pm | Sefydlu llywodraethwyr newydd: rolau a chyfrifoldebau'r llywodraethwyr - 'adnabod fy ysgol' |
| Dydd Mercher 21 Mai | 5.30-7.00pm | Gofalwyr Ifanc Di-dâl: Codi ymwybyddiaeth, nodi a chefnogi |
| Dydd Llun 26 Mai | | Hanner Tymor |
| Dydd Llun 2 Mehefin | 4.00-6.00pm | Rhaglen Hyfforddiant Ragarweiniol i Lywodraethwyr |
| Dydd Mawrth 3 Mehefin | 10am-12pm | Rôl data wrth gefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion |
| | | |
| Dydd Mawrth 3 Mehefin | 10am-12pm | Diogelu: 'deall a hyrwyddo diwylliant o wyliadwriaeth' (Cy) |
| Dydd Mawrth 3 Mehefin | 1.00-3.00pm | Sefydlu Cadeirydd Newydd |
| Dydd Mawrth 3 Mehefin | 5.30-7.00pm | Llais y Disgybl a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) |
| Dydd Mawrth 10 Mehefin | 10am-12pm | Safonau a Dyheadau Uchel: Tegwch a Rhagoriaeth i Bawb (Cy) |
| Dydd Mawrth 10 Mehefin | 5.30-7.30pm | Rôl data wrth gefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion |
| Dydd Iau 12 Mehefin | 5.30-7.00pm | Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) mewn Ysgolion |
| Dydd Llun 16 Mehefin | 5.30-7.30pm | Rôl data wrth gefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion |
| Dydd Mawrth 17 Mai | 5:30-7.00pm | Llywodraethu Gwybodaeth |
| Dydd Mawrth 18 Mehefin | 1.00-3.00pm | Sefydlu llywodraethwyr newydd: rolau a chyfrifoldebau'r llywodraethwyr - 'adnabod fy ysgol' |
| Dydd Iau 19 Mehefin | 10am-12pm | Safonau a Dyheadau Uchel: Tegwch a Rhagoriaeth i Bawb |
| Dydd Mawrth 25 Mehefin | 5.30-7.30pm | Diogelu: 'deall a hyrwyddo diwylliant o wyliadwriaeth' |
| Dydd Mawrth 3 Mehefin | 5.30-7.00pm | EUBS |
| Dydd Llun 30 Mehefin | 5.30-7.00pm | Gwaharddiadau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion |
| Dydd Llun 7 Gorffennaf | 5:30-6:30pm | Llywodraethwr Diogelu Dynodedig (LlDDau) |
| Dydd Mawrth 8 Gorffennaf | 5.30-7.00pm | Safonau a Dyheadau Uchel: Tegwch a Rhagoriaeth i Bawb |
| Dydd Mercher 9 Gorffennaf | 5.30-7.00pm | CLA |

**Haf 2025**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Vale of Glamorgan**